# Denu, ysbrydoli a datblygu pobl

Bydd denu talent newydd yn golygu estyn allan at fwy o bobl mewn gwahanol gefndiroedd ac at bobl â phrofiadau bywyd amrywiol.

Rhan o'r broses yw meithrin enw da o fewn y sefydliad neu'r bartneriaeth, ar gyfer cydweithio adeiladol gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Bydd hyn yn gofyn am sylw i ddiwylliant y sefydliad sydd angen adlewyrchu gwerthoedd cydgynhyrchiol, ymrwymiad i gyd-gynhyrchu ym mhob penderfyniad, ac awydd gwirioneddol i glywed gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, diddordeb yn eu barn a'u profiadau a phenderfyniad i alluogi newid wedi'i lywio gan y rhain.

Bydd hyfforddi'r holl staff ar draws y sefydliad mewn ethos a sgiliau cyd-gynhyrchu yn helpu i ymgorffori'r newid diwylliant sydd ei angen.

Yn ogystal â grwpiau trafod rheolaidd a gefnogir gan y trydydd sector lleol, mae'n ddefnyddiol cynnal digwyddiadau eraill fel; cyfarfodydd 'cwrdd â'r cynrychiolwyr', lle gall y cynrychiolwyr ddisgrifio eu rôl a rhoi adborth ar eu cyflawniadau; digwyddiadau gwrando lle mae staff yn cynnig cyfle i gwrdd â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, o bosib ar bynciau neu wasanaethau penodol, neu ar yr hyn y mae pobl ei eisiau o drawsnewid gwasanaethau; a digwyddiadau galw heibio i gasglu barn mewn modd mwy anffurfiol.

Mae defnydd adeiladol o amser pobl yn bwysig. O ganlyniad, mae'n hanfodol gallu dangos a chyfleu y byddant yn cael eu clywed ac y byddant yn gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Mae pobl yn cael eu hysbrydoli i gyfrannu drwy ymgysylltu oherwydd cyflawniadau pobl sydd wedi bod yn rhan o'r gorffennol. Felly mae'n hanfodol sicrhau bod cyflawniadau o'r fath yn cael eu cydnabod, eu rhannu a'u hyrwyddo'n ehangach. Lle mae pobl â phrofiad byw/personol a gofalwyr yn ymwneud â rolau â thâl, maent yn dod yn fodelau rôl ar gyfer y posibiliadau i eraill, gan wneud adferiad yn wirionedd.

Mae angen mwy o eglurder ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr pan fyddant yn rhoi eu hamser i weithgareddau ymgysylltu ac unrhyw gymorth a gwobrau sydd ar gael ar gyfer hyn, os oes angen. Dylai gwobrau gynnwys 'lwfans cartref' i dalu am drydan, defnydd band eang a threuliau eraill, lle disgwylir i bobl weithio gartref.

Mae angen hyrwyddo manteision cymryd rhan. Mae'r rhain yn cynnwys effaith glir

ar adferiad, datblygu sgiliau, mwy o hunanwerth a hyder a chyfleoedd i wneud cysylltiadau â phobl o'r un anian.

Mae angen i'r profiad o ymgysylltu fod yn hwyl ac yn ddiddorol hefyd, gyda diwylliant croesawgar ac agoredrwydd i syniadau newydd a diddordeb gwirioneddol mewn profiadau. Daw rhai pobl â diddordebau arbennig penodol a fydd, os cânt eu meithrin, yn eu sbarduno i gyflawni mwy. Mae'n ddefnyddiol wrth ddarparu cymorth unigol, adolygu ystod gyffredinol o weithgareddau a sgiliau pobl i weld ble mae cyfleoedd i adeiladu ar eu sgiliau ac i wneud ymgysylltu'n fwy hygyrch iddynt trwy baru eu diddordebau a'u galluoedd yn well â'r gweithgareddau sydd ar gael.

Gall rhannu arferion gorau ysbrydoli pobl hefyd. Byddai'n ddefnyddiol annog pobl i hyrwyddo'r hyn maen nhw'n ei wneud yn dda. Un ffordd o wneud hyn fyddai datblygu gwobr am enghreifftiau o arferion gorau cydgynhyrchu.

Mae pobl yn cael eu hysbrydoli gan bobl eraill sydd â diddordebau a phrofiadau tebyg iddyn nhw eu hunain, gan ffurfio cymuned neu 'fudiad' ar gyfer newid. Mae pobl yn mwynhau defnyddio eu talentau a gwneud yr hyn maen nhw'n dda yn ei wneud. Byddai canfod talentau yn ddefnyddiol ac yna cadw golwg ar bwy sy'n dda yn gwneud beth a rhannu'r gwaith yn ôl pwy sydd â'r sgiliau i wneud cyfraniad.

Annog ffyrdd newydd o ymgysylltu â phobl e.e. drwy'r celfyddydau, drwy drafodaeth anffurfiol yn ystod gweithgareddau therapiwtig, drwy staff sy'n darparu gwasanaethau yn eu cyfeirio at gyfleoedd, a/neu'n gwrando ar adborth ar y gwasanaeth wrth iddynt fynd ymlaen.

I bobl mewn rolau ymgysylltu neu sy'n dyheu am fod yn gynrychiolwyr, gall hyfforddiant fod yn gymhelliant mawr, yn wobr, yn gyfle datblygu a gall ysbrydoli mwy o gyfraniad – yn enwedig os caiff ei arwain gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sydd eisoes wedi cael llwyddiant yn y gwaith. Gellir defnyddio cyfuniad o hyfforddiant a chyfleoedd i ymarfer sgiliau newydd i adeiladu ar gryfderau pobl.

Gellid datblygu swyddi newydd ar gyfer gweithwyr ymgysylltu â chyfoedion (a fyddai'n ddefnyddwyr gwasanaeth neu'n ofalwyr) i weithio o fewn sefydliadau mawr fel y GIG neu ofal cymdeithasol. Byddai'r bobl hyn yn rhwydweithio â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i ddatblygu eu sgiliau a magu eu hyder ac i greu cyfleoedd ar gyfer eu cyfranogiad. Byddent hefyd yn gweithio ar greu diwylliant o fewn y sefydliad o gymhwyso ymgysylltu ar bob lefel ym mhob agwedd ar y gwasanaeth, o gydgynhyrchu cynlluniau gofal a thriniaeth, yr holl ffordd i fyny i ddatblygu strategaeth ar lefel y bwrdd.